

YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

DYDD Mawrth, 24 Ionawr 2023

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: G. Davies (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

T. Neumayer-James, Prif Swyddog Llywodraethu Ysgolion

K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraataidd

Rhith-Gyfarfod - 9.30 - 9.55 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 24AIN TACHWEDD 2022

PENDERFYNWYD Ilofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2022 yn gofnod cywir.

3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.L.L

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Rhoddodd y Pen Swyddog Llywodraethu Ysgolion wybod y gall yr holl Gynghorwyr Sir, ar ôl cael eu hethol, bennu ar ba gyrff llywodraethu ysgolion y byddant yn eistedd a bydd eu penderfyniad yn cael blaenoriaeth dros Lywodraethwyr Awdurdod Lleol na chafodd eu hethol. O ganlyniad, gall Cynghorwyr Sirol enwebu i wasanaethu fel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar ysgolion lle nad oes lle gwag ar hyn o bryd. Os bydd swydd llywodraethwr wedi'i ordanysgrifio, gall y Cyngor bennu pa Lywodraethwr Awdurdod Lleol y mae'n rhaid iddo roi'r gorau i'r swydd.

PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrrff Llywodraethu:-

Ysgol Gynradd	Penodiadau
Y Bryn (1 lle gwag ar ôl 29.01.23 - 1 enwebiad)	Dr M.A. Williams
Carreg Hirfaen (1 lle gwag ar ôl 29.01.23 - 1 enwebiad)	Mr G. Hope

Ffederasiwn Cynwyl Elfed a Llanpumsaint (3 lle gwag – 2 enwebiad)	Mr. A. Davies Mr K.A. Nicholas
Ffwrnes (0 lle gwag) (Bydd angen i un o'r Llywodraethwyr Awdurdod Lleol presennol roi'r gorau i'r swydd i alluogi'r Cynghorydd James i eistedd ar y Bwrdd o Lywodraethwyr)	Y Cynghorydd Rob James
Hafodwenog (1 lle gwag ar ôl 06.03.23)	Y Cynghorydd Jean Lewis
Llandybie (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mrs. S. Cann
Llangynnwr (1 lle gwag ar ôl 12.02.23 - 1 enwebiad)	Mr. G. Rees
Myrddin (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mrs. D. Ridley
Peniel (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mr. M.J. Evans
Saron (1 lle gwag ar ôl 18.03.23 - 1 enwebiad)	Mrs. L. Jones
Y Ddwylan (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mrs. J. Ludgate

Ysgol Uwchradd	Penodiadau
Bro Myrddin (2 le gwag, 1 ar hyn o bryd ac un ar ôl 29.01.23 - 1 enwebiad)	Y Parchedig T.T. Defis
Dyffryn Taf (1 lle gwag ar ôl 18.03.23 - 1 enwebiad)	Mr. E. Howells
Ysgol Gyfun Emlyn (2 le gwag – 1 enwebiad)	Dr. D. Whybrow

AELOD O'R CABINET

DYDDIAD